**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 23 Medi 2025**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm Dydd Gwener 26 Medi 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw unrhyw benderfyniad i mewn i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener 3 Hydref 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) Ddydd Llun 6 Hydref 2025.

**Yn bresennol:** Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd a Chadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff Evans, Glyn Haynes, Derek Owen

**Ymddiheuriadau:** Mr. Dylan Williams, Prif Weithredwr)

(10:00 y. b. - 11:30 y. b.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod rhwng Hydref 2025 a Mai 2026 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Hunanasesiad ac Adrodd Perfformiad**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cyngor Llawn -**<br><br>• **Ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau cyfansoddiadol sydd eu hangen er mwyn adlewyrchu uno'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad (Llesiant) Blynyddol i fod yn un ddogfen unigol y cyfeirir ati fel yr Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant).**<br>• **Ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu y bydd yr adroddiad wedi'i gyfuno y cyfeirir ato uchod yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.**<br>• **Ei fod yn awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau cyfansoddiadol sydd eu hangen er mwyn gweithredu paragraffau 1 a 2 uchod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y** |

| | |
|---|---|
| | **Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ddim yn berthnasol. Mae'n rhaid i newidiadau i'r Cyfansoddiad gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Hunanasesiad Drafft 2024/25**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'r ddogfen a gyflwynwyd fel "drafft gweithredol" a gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried ei gynnwys ymhellach yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2025.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r gwasanaeth perthnasol yn eu harchwilio a'u hymchwilio i reoli a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â Thai (ail-osod eiddo gwag a darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff domestig), Iechyd Cyngor Cyfan (ymateb i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn adnabod a delio â meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |

| | |
|---|---|
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 1, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.**<br>• **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH.**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2025/26** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Monitro'r Gyllideb Cyfalaf - Chwarter 1, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2025/26 yn ystod Chwarter 1.** |

| | |
|---|---|
| | • **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £9.363m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf a newidiadau mewn cyllid, yn unol ag Atodiad C, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £56.186m ar gyfer 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2025/26.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 1, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol -**<br>• **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2025/26.**<br>• **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2025/26.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 - 2028/29**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 i 2028/29 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ynddo.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cyhoeddi datganiad cyn gosod y gyllideb yn unol â'r gofynion yng Nghyfansoddiad y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Cais am Arolwg Cymunedol o Gyngor Cymuned Pentraeth**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Cytuno i gynnal Arolwg Cymunedol adran 31 o Gyngor Cymuned Pentraeth yn unol â'r cais a gyflwynwyd gan etholwyr.**<br>• **Cynnal yr arolwg fel rhan o Arolwg Cymunedol adran 31 ar gyfer yr Ynys gyfan.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ymateb i ddeiseb gan etholwyr.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a** |

| | |
|---|---|
| | **ganlyn oherwydd y golygai y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gallai datgelu gael effaith ar fuddiannau masnachol partner datblygu neu'r sawl sy'n prynu'r eiddo, gan gynnwys y Cyngor. Gallai datgelu gael effaith andwyol ar drafodaethau'r Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **15 Pryniant hen safle Peboc, Llangefni**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Cymeradwyo mewn egwyddor i brynu hen safle Peboc gan ddefnyddio cyllid cyfalaf a ddarparwyd gan Borthladd Rhydd Ynys Môn.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr ynghyd â'r Swyddog Adran 151 i brynu hen safle Peboc unwaith y bydd y gwaith negodi wedi dod i ben. (Mae'r perchnogion presennol wedi derbyn cynnig amodol).**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr ynghyd â'r Swyddog Adran 151 i negodi a thalu'r taliadau iawndal i'r defnyddwyr presennol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gefnogi'r ymrwymiadau dan amcan strategol y Cyngor i roi hwb i'r economi ac adfywio cymunedau a chefnogi'r economi leol i dyfu a ffynnu.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI | **Dim** |

| | |
|---|---|
| ROI? | |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |